

ASTUDIAETH ACHOS, DOCUMENT

Cynnal Cymru – Astudiaeth Achos Bwyd

Cryfhau a Chryfhau Ecosystem Bwyd Lleol Cymru

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 Ionawr 2026

Diweddarwyd diwethaf: 23 Ionawr 2026

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o [BUSNES.CYMRU](https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cynnal-cymru-astudiaeth-achos-bwyd), efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar
Ewch i <https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cynnal-cymru-astudiaeth-achos-bwyd> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
[gwybdaeth am hawlfraint](#)

Ar y dudalen hon

Trosolwg

Yr Economi Sylfaenol

Rôl Cynnal Cymru

Amcanion a Dull

Manteision y Rhwydwaith

Model Cydweithredol ar gyfer y Dyfodol

Trosolwg

Llywodraeth Cymru a Chynnal Cymru – Prosiectau Economi Sylfaenol

Fel rhan o Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol Llywodraeth Cymru, derbyniodd prosiectau bwyd a diod gefnogaeth hanfodol gan Gynnal Cymru drwy greu a hwyluso Rhwydwaith Galluoedd cenedlaethol. Mae'r rhwydwaith hwn, sydd bellach yn gymuned ymarfer lewyrchus, wedi galluogi llawer o'r prosiectau economi sylfaenol hyn ledled Cymru i dyfu, arloesi a chydweithio mewn ffyrdd sy'n elwa pobl leol, cymunedau a chadwyni cyflenwi yn uniongyrchol.

Yr Economi Sylfaenol

Mae'r Economi Sylfaenol yn cyfeirio at y sectorau bob dydd sy'n hanfodol i ansawdd ein bywyd megis bwyd, gofal, tai, ynni, twristiaeth, a manwerthu. Mae'r sectorau hyn yn aml wedi eu gwreiddio mewn cymunedau lleol, gan ddarparu gwaith teg a gwasanaethau hollbwysig. Crëwyd Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol gan Lywodraeth Cymru i gryfhau'r economi hon drwy gefnogi busnesau a allai gyflenwi mwy o'r hyn sydd ei angen ar y sector cyhoeddus, o fwyd lleol i ofal cymdeithasol a thu hwnt.

Cefnogwyd nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar fwyd gan y gronfa, gan gynnwys rhaglen Bwyd Cymru i Ysgolion Larder Cymru, 'Llysiau Cymru mewn Ysgolion' Synnwyr Bwyd Cymru a Can Cook – Well-Fed.

Rôl Cynnal Cymru

Mae Cynnal Cymru wedi arwain Rhwydwaith Galluoedd yr Economi Sylfaenol ar ran Llywodraeth Cymru. Cynlluniwyd y rhwydwaith, sy'n cynnwys dros 75 o aelodau, i gysylltu, cefnogi a thyfu prosiectau economi sylfaenol ledled y wlad.

“Ein rôl ni yw cefnogi'r prosiectau a ariennir gan Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol,” eglura Phoebe Nicklin, Swyddog Polisi ac Ymgysylltu Cynnal Cymru. “Fe wnaethon ni greu lle, cymuned o ymarfer, lle gallai arweinwyr prosiectau gyfarfod yn rheolaidd, rhannu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Dyna le mae'r hud yn digwydd.”

Amcanion a Dull

Adeiladwyd y Rhwydwaith Galluoedd ar egwyddorion cyd-gynhyrchu—dull cydweithredol lle mae cyfranogwyr yn helpu i lunio canlyniadau. Nod y rhwydwaith oedd:

- Nodi ac archwilio heriau cyffredin ar draws prosiectau
- Annog rhannu gwybodaeth a datrys problemau
- Hyrwyddo arloesedd mewn darparu gwasanaethau a datblygu'r gadwyn gyflenwi
- Meithrin cysylltiadau ystyrlon rhwng ymarferwyr, llunwyr polisi, a swyddogion y llywodraeth

Manteision y Rhwydwaith

Adroddodd cyfranogwyr y prosiect am sawl budd allweddol o'u cyfranogiad yn y Rhwydwaith Galluoedd:

1. Rhwydweithio Ystyrlon

Enillodd y prosiectau fynediad at rwydwaith ehangach o sefydliadau a busnesau o'r un anian ledled Cymru. Daeth y cyfarfodydd misol â phrosiectau llawr gwald a mentrau mwy, sefydledig ynghyd, gan greu cyfleoedd i gydweithio ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd gyfan.

Nododd un arweinydd prosiect, “mae cael y lle hwnnw bob mis i siarad am ein gwaith, clywed beth oedd eraill yn ei wneud, ac adeiladu'r perthnasoedd hynny - mae wedi bod yn hynod bwysig.”

2. Dysgu a Rennir

O fodlau caffael arloesol i lywio heriau polisi, galluogodd y rhwydwaith drafodaeth agored am rwystrau ac atebion. Elwodd prosiectau o weld sut roedd eraill yn mynd i'r afael â materion tebyg, gan roi offer newydd iddynt i gryfhau eu dull eu hunain o fwyd lleol mewn ysgolion.

3. Cysylltiadau â Pholisi a Llywodraeth

Sicrhodd Cynnal Cymru fod gweision sifil Llywodraeth Cymru yn bresennol mewn llawer o'r sesiynau, gan helpu i bontio'r bwlch rhwng cyflawni rheng flaen a llunio polisiau. Rhoddodd y cysylltiad hwn gyfle i brosiectau rannu mewnwelediadau'n uniongyrchol â rhanddeiliaid y llywodraeth - ac, yn ei dro, alinio eu gwaith yn well â blaenoriaethau cenedlaethol.

4. Gwelededd a Llais

Drwy recordio cyfarfodydd a rhannu adnoddau, fe wnaeth Cynnal Cymru ymhelaethu ar waith Food Sense Wales, Larder Cymru, Can Cook / Well Fed a'u cyfoedion. Helpodd y gwelededd hwn i gryfhau'r achos dros gefnogi systemau bwyd lleol a'r economi sylfaenol yn ehangach.

Model Cydweithredol ar gyfer y Dyfodol

Mae gwaith Cynnal Cymru wedi dangos sut y gall cymunedau ymarfer strwythuredig, wedi'u hwyluso'n dda, gryfhau economi sylfaenol Cymru mewn ffyrdd ymarferol a mesuradwy. Mae cyfranogwyr wedi dod allan o'r rhaglen wedi'u cysylltu'n well, yn fwy gwybodus, ac wedi'u grymuso'n fwy i dyfu cyflenwad bwyd lleol i ysgolion ledled Cymru.

O ganlyniad i'r Rhwydwaith Galluoedd, mae prosiectau'n parhau i gydweithio â'i gilydd a rhannu eu dysgu eu hunain - adeiladu economi fwyd mwy gwydn, ymatebol a gwreiddiog yng Nghymru.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **BUSNES.CYMRU**, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar

Drilenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Ewch i <https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cynnal-cymru-astudiaeth-achos-bwyd> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

[gwybdaeth am hawlfraint](#)